Cylchlythyr Ffês 1
Tachwedd 2021

YSGOL BRO IDRIS

YSGOL BRO IDRIS

Llwyddiant yr Urdd

Llongyfarchiadau i Jini Haf Lewis Roberts ar ennill y 3ydd wobr yng nghystadleaeth Rhyddiaith Blwyddyn 2 ac iau Eisteddfod yr Urdd 2020-2021 Gwaith Cartref.

App Tric a Chlic

Cofiwch am yr app Tric a Chlic

Milfeddyg yn ymweld â Bro Idris

Fel rhan o'n gwaith ar 'Milfeddyg y Sw' trefnwyd bod milfeddyg yn ymweld â dosbarthiadau Cyfnod Sylfaen hanner tymor diwethaf. Diolch i Debbie o Milfeddygfa Bermo am ymweld â disgyblion Safle Llanelltyd, Rhian o Milfeddygfa Glantwymyn am ymweld â disgyblion Safle Dinas Mawddwy a Rhydymain a Sophie o Milfeddygfa Dolgellau am ymweld â disgyblion Safle Dolgellau.

Bore Coffi Macmillan

Diolch yn fawr iawn i chi am gefnogi Bore Coffi Macmillan Ysgol Bro Idris ym mhob safle dydd Gwener, 24ain o Fedi, 2021. Diolch am y rhoddion o gacennau, arian a'ch cefnogaeth wrth fynychu.
Casglwyd £1116.73

Diolchgarwch

Cawsom wasanaethau diolchgarwch llwyddiannus yn y capeli/eglwysi lleol dydd Gwener olaf cyn hanner tymor. Cofiwch bod croeso i chi wylio'r fideos o'r gwasanaethau ar youtube. Mae'r linc ar gyfer gwasanaethau'r safleoedd ar Facebook.

Anthem Ysgol Bro Idris #unohonani

Cofiwch am ein hanthem Ysgol Bro Idris. Cliciwch ar y linc

https://www.youtube.com/watch?v=cVB38z4wghg

Cylchlythyr Ffês 1
Tachwedd 2021

YSGOL BRO IDRIS

YSGOL BRO IDRIS

Gweithdy Coedwig law a Newid yn yr Hinsawdd

Daeth Elin Crowley o amgylch dosbarthiadau Ffes 1 a chynnal gweithdai diddorol iawn. Bu Cyfnod Sylfaen yn dathlu coedwigoedd glaw gyda Tim Tom yr Orangwtan. Roedd Gweithdy Blwyddyn 3 a 4 yn ymwneud â Newid hinsawdd a sut i ddiogelu coedwigoedd glaw gwerthfawr.

Dyddiadau allweddol

Gweithdy Kariad (Bl2 a 3) - 15.11.21 a 19.11.21

Diwrnod Plant Mewn Angen - 19.11.21

Diwrnod Siwmper Nadolig 10.12.21

Taith antur Preswyl Glanllyn (Bl3 a 4) 18.1.22 - 19.1.22

Aelodaeth yr Urdd

Cofiwch os am ymaelodi gyda'r Urdd ewch i wefan yr Urdd

www.urdd.cymru/ymuno

Dyddiadau HMS

Bydd yr ysgol ar gau i'r disgyblion ar y dyddiadau isod :

Dydd Iau, 6ed o Ionawr, 2022

Dydd Gwener, 7fed o Ionawr, 2022

Dydd Llun, 18fed o Orffennaf, 2022

Dydd Mawrth, 19eg o Orffennaf, 2022

Dyddiadau Gwyliau Ysgol

23 Rhagfyr 2021 – 5 Ionawr 2022 (Gwyliau'r Nadolig)

21 – 25 Chwefror 2022 (Hanner-Tymor)

11 - 22 Ebrill 2022 (Gwyliau'r Pasg)

2 Mai 2022 (Calan Mai)

30 Mai - 3 Mehefin 2022 (Hanner-Tymor)

20 Gorffennaf 2022 – Gŵyl Y Banc

21 Gorffennaf - 29 Awst 2022 (Gwyliau'r Haf)

Ffês 1 : Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1, Blwyddyn 2, Blwyddyn 3, Blwyddyn 4. **Pennaeth ffês : Ms Nia Wyn Thomas**

01341 424949 **www.ysgolbroidris.cymru** **@ysgolbroidris** **Llwyddiannau Ysgol Bro Idris**